

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Hydref
16deg 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 16th October
2019 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes, Maldwyn Williams, Mark Griffiths, Martin Hennessey, Geraint Parry (Clerc/Clerk) ac Alun Roberts

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Barbara Williams, Hanna Elin Baguley, Myrddin Roberts, Carwyn Jones

Nodyn/ Note - Gwnaethom groesawu ein haelodau cyfetholedig newydd i Ward Llanddona – Martin Hennessey a Mark Griffiths / *We welcomed our new co-opted members to the Llanddona Ward – Martin Hennessey and Mark Griffiths*

3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest

Dim budd i'w ddatgan / *No interest to declare*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11fed o Medi fel rhai cywir gan Maldwyn Williams, eiliwyd gan Rhian Hughes / *Minutes of the previous meeting held on 11th Sept were accepted as accurate by Maldwyn Williams, seconded by Rhian Hughes.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

5.1 Chalet - deallir bod y mater hwn yn cael sylw gan y Pwyllgor Craffu / *It is understood that this matter is being addressed by the Scrutiny Committee*

5.2 Ysgol Biwmares – rhai penderfyniadau a wnaed gan y Brif Weithredwr ymadawol bellach wedi eu diddymu. Bydd Anwen Morgan yn cymryd drosodd mis Hydref / *Some decisions made by the outgoing Chief Executive have now been rescinded. Anwen Morgan is taking over in October.*

5.3 Mynwentydd Lleol - nawr wedi ei dorri / *Local Cemeteries - have now been cut*

5.4 Llinell trydan o dan y ddaear yn Tyn Llain - Clerc wedi ymateb gydag ein sylw i SP Energy. Mewn ymateb i'n cais am ad-daliad am y cysylltiad i'r Hen Ysgol, fe wnaethant gadarnhau nad oes ad-daliad am y cysylltiad newydd. Y trawsnewidydd a'r ymweliadau safle i'w cysylltu yn bennaf sy'n gyfrifol am hyn / *Underground line at Tyn Llain - Clerk has replied with our comments to SP Energy. In reply to our request for a refund for the Old School connection, they confirmed that there is no refund due to the new connection. This is mainly down to the transformer and site visits for connection.*

5.5 Adroddiad Blynnyddol IRPW - taliad i aelodau, atgofiodd y Clerc y Cyngorwyr o'r angen i benderfynu derbyn neu wrthod y taliad / *Annual IRPW Report - payment to Councillors , Clerk reminded Councillors of the need to decide to accept or reject the payment .*

5.6 Llwybrau Lleol - codwyd pryder ynghylch cyflwr ein llwybrau troed. Awgrymwyd y dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau troed o amgylch y pentref yn bennaf yn y lle cyntaf. / *Concern was raised about the condition of our footpaths. It was suggested that maintenance work should be made on the footpaths around the village predominantly in the first instance.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwr Sir Alun Roberts / Report by the County Councillor Alun Roberts

6.1 Esbonir y bydd newidiadau i amodau grantiau. Daeth yn amlwg nad yw'r cyllid wedi'i wario mewn rhai achosion. Cyngor Sir i edrych ar y rheolau / *Explained there will be changes to grants conditions. It has become noticeable that in some cases that the funding has not been spent. County Council to look at the rules.*

6.2 Gyda'r materion parhaus gyda Brexit, nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y gyllideb ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer 2020/21 / *With the on-going issues with Brexit, the Welsh Government have not decided on the budget for local authorities for 2020/21*

6.3 Esboniodd y pwyntiau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod cyhoeddus gwrthgymdeithasol a gynhaliwyd yn Llandegfan ar 15/10/19 / *Explained the points discussed during the public Anti-Social meeting held in Llandegfan on 15/10/19*

6.4 Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn adroddiad da ynghylch ei gwasanaethau. Bydd aros am benderfyniad ynglŷn â Chartref Preswyl Haulfre. Os yw am gau yn 2022/23 yn dibynnu ar ddatblygiad y Cynllun Gofal Ychwanegol ym Miwmares. Mae Mr. S McVicar yn edrych ar redeg y cartref fel menter breifat, ond gyda'r rheolau a'r rheoliadau presennol bellach ar waith, mae'n gwneud hon yn dasg enfawr. / *Social Services Department of the Council has*

received a good report regarding its services. Awaiting a decision regarding Haulfre Residential Home. If it is to close in 2022/23 will depend on the development of the Extra Care Scheme in Beaumaris. Mr S McVicar is looking at running the home as a private enterprise but with the existing rules and regulations now in place, makes this an enormous task.

6.5 Mae adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r ffiniau a'r wardiau yng Nghymru o'r farn bod 30 o gynghorwyr yn annigonol ar gyfer Ynys Môn / Review by Welsh Government of the boundaries and wards in Wales considers that 30 councillors in insufficient for Anglesey

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

7.1 LBC2019/29 – Penhwnllys Plas - caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer 5 ffenestr ynghyd ag amnewid yr estyll tywydd a'r landeri – dim gwrthwynebiad / Listed Building Consent for the replacement of 5 windows together with the replacement of the fascia boards and gutters - no objection

7.2 FPL2019/257 – Neuadd Pentre, Llanddona - cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad yn ddwy uned gwyliau – dim gwrthwynebiad / Full application for the conversion of the building into two holiday units – no objection

8. Awdit/Audit 2018/19

8.1 Adroddodd y Clerc fod y dogfennau a ddaeth i ben gyda'r archwiliad wedi'u derbyn ynghyd â'r rhybudd i'w arddangos. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor Cymuned, nid oedd unrhyw sylw wedi ei godi. Derbyniodd y Cyngor y ffurflenni blynyddol. Mae'r hysbysiad cyhoeddus yn cael ei arddangos i unrhyw berson i sgrwtineiddio'r ffurflen flynyddol a chanfyddiadau'r archwiliad. / The Clerk reported that the documents concluding the audit had been received along with the notice to be displayed. The Annual Return was presented to Council. Council accepted the annual return. The public notice is displayed for anyone to scrutinise the annual returns and audit findings.

9. Cyflwr Lonydd Lleol / Condition of local roads

9.1 Esboniodd Cyng. A Roberts ganlyniadau'r gweithdai a fynychwyd mewn perthynas â'r toriadau ariannol y Cyngor Sir. Y gobaith yw na fydd cyllideb Priffyrdd yn cael ei thorri / Clr. A Roberts explained the outcomes of the workshops attended in relation to the County Council financial cutbacks. It is hoped that the Highways budget will not be cut.

10. Tir Comin/Common Land

10.1 Cais am hawddfrait Brookfield - dim gwybodaeth bellach. / Application for easement Brookfield - no further information.

10.2 Ffos ar dir comin y Rhos - siomedig yn y diffyg ymateb gan CNC ynglŷn â'r gwaith anghyfreithlon a wnaed a'r sefyllfa gyda'r ffos agored. Penderfynwyd i'r Clerc fynd a dilyn i fyny ar fater gyda CNC / Ditch on Rhos common land - disappointed in the lack of response from NRW regarding the illegal work carried out and the situation with the open ditch. It was decided for the Clerk to pursue the issue with NRW

10.3 Hawddfrait ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - mae'r Clerc wedi cysylltu â CNC, disgwyl am ymateb / Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben - Clerk has contacted NRW, awaiting response.

10.4 Adroddodd Cynllun Rheoli Cwlwm Seiriol – cylchredwyd yr adroddiad gan Cwlwm Seiriol, ond penderfynwyd aildrefnu'r cyfarfod er mwyn caniatáu amser ychwanegol i dreulio'r wybodaeth / Cwlwm Seiriol new Management Plan - the report has been circulated by Cwlwm Seiriol, but it was decided to re-arrange the meeting in order to allow additional time to digest the information.

11. Cyfrifon / Accounts

10.1 Anfonebau i'w talu a phenderfynwyd ar apeliadau / Invoices for payment and appeals decided:-

- Cynnal a Chadw Mynwentydd / Maintenance of local cemeteries - £1,075.00
- Rhodd – Ymchwil Canser Gogledd orllewin / Appeal – North West Cancer Research - £100.00
- Rhodd - Canser Haematoleg Gwynedd / Appeal - Gwynedd Hematology Cancer - £100.00

12. Gohebiaeth/Correspondence

- SP Energy
- Ymddiriedolaeth Coetir / Woodland Trust
- Prosiect Morlais - ynni llanw / Morlais Project - tidal energy
- Cyfarfod Pencampwyr Iaith 14/11/19 / Welsh Language Champions meeting 14/11/19

- Cyfarfod Dolydd Rhyfeddol 8/10/19 / *Magnificent meadows meeting 8/10/19*
- Hyfforddiant cod Ymddygiad 15/10/19 / *Code of Conduct Training 15/10/19*
- Cyfarfod Cynghrair Seiriol 14/11/19 / *Seiriol Alliance meeting 14/11/19*
- Fframwaith Datblygu / *Development Framework*
- Apêl Eisteddfod Môn 2020 / *Anglesey Eisteddfod appeal 2020*
- Apêl Blaen y Coed / *Blaen y Coed appeal*

13.UFA/AOB:

- 12.1 Coed Helyg yn tyfu ar Mynydd Crafcoed – i drafod ymhellach / *Willow Trees growing on Mynydd Crafcoed – to be discussed further.*
- 12.2 Mae Ymddiriedolaeth y Coetir yn cynnig pecynnau o goed am ddim. Penderfynwyd yn unfrydol i wrthod y cynnig / *The Woodland Trust are offering free packs of trees. It was unanimously decided to turn down the offer.*
- 12.3 Trafodwyd y posibilrwydd o gael defib arall yn y pentre / *Discussed the possibility of having another defib in the village.*
- 12.4 Clerc i drefnu llofnodion ychwanegol er mwyn cymeradwyo sieciau / *Clerk to arrange additional signatures in order to approve cheques.*
- 12.5 Hysbysiad gan y Cyngor Sir y bydd yr arwydd ar gyfer Capel Peniel yn cael ei godi cyn bo hir / *Notification from the County Council that the sign for Capel Peniel will be erected shortly*
- 12.6 Tan Gwylt Biwmares 2/11/19 / *Beaumaris Fireworks 2/11/19*
- 12.7 Golau stryd ger yr hen Ysgol dim yn gweithio / *Street light by the old School not working*
- 12.8 Angen torri'r canghennau wrth y golau stryd ger Bryn Ffynnon / *Need to cut the branches by the street light by Bryn Ffynnon*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:30 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 20/11/19 am 7.30 yn yr Hen Ysgol.
There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:30pm. Next meeting to be held on 20/11/19 at 7.30pm in the Old School.

Llofnod y Gadeirydd

Dyddiad